

**LLEISIAU O LAWR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR**

**Ffatri 'Tic Toc' (Anglo Celtic Watch Co and Smiths Industries) Ystradgynlais;  
Ffatri Geir, Cae'r Bont (Wedi dechrau gweithio tua 1965)**

**Cyfwelai: VSW001Moirra Morris**

**Dyddiad: 6.11.13**

**Cyfwelydd: Susan Roberts ar ran Archif Menywod Cymru**

*There is an English summary at the end of the Welsh text*

00.00.42

**I ddechrau, os allech chi jest dweud eich enw wrthof i.**  
Yn enw i yw Moira Morris.

**A'r dyddiad geni?**  
Twenty Seventh of the Seventh, '49.

**Wy jest mynd i ofyn i chi'n gynta tamed bach am eich cefndir chi, ble cesoch chi eich geni.**  
Lawr yn Cwmtwrch geso i 'ngeni.

**Faint o blant o'ch chi?**  
Brawd a wha'r.

**Chi oedd yr ifanca?**  
Na, ie, fi oedd yr ifanca. A dim ond fi sydd ar ôl. Ma'r brawd wedi mynd.

**Beth o'dd ych tad yn neud?**  
O'dd 'yn dad, gwitho mewn gwaith glo o'dd 'yn dad. Heliwr o'n nhw'n galw fe. Dishgwl ar ôl y ceffyle wy'n credu a rhywbeth fel 'na o'dd e'n arfer gweud.

**Pwy waith o'dd e?**  
Gwaith Pwll Bach. Gwaith Glo.

**O'dd ych mam wedi bod yn gw'itho o gwbl?**  
Nago'dd. O'dd Mami'n ty yn neud gwaith. Yn gofalu am y plant a .. a gwaith ty.

**Ble buoch chi'n yr ysgol wedyn?**

Yn ysgol Cwmtwrch bues i'n ysgol. A wedyn es i lawr i Ysgol Maes y Dderwen yn Ystradgynlais. I'r comprehensive school.

**O'ch chi'n dala bys fan'na wedyn?**

O'n i'n dala bys o fan'nna. A cwpla gwitho pan o'n i'n pymtheg.

**O'ch chi'n gadael ysgol yn bymtheg.**

O'n i'n gadel ysgol pan o'n i'n bymtheg.

**Ble ethoch chi ar ôl i chi adel?**

Etho i ffatri Tic Toc. Tic Toc o'n nhw'n galw hi. Anglo Celtic o'dd yr enw iawn amdani ddi. Ffatri yn neud watsys menywod, a dynon, a pocket watches. A wedyn o'dd yr Enfield yr ochor arall ac o'n nhw'n neud cloce, o'n nhw'n neud. Chime clocks a wahanieth teip o gloes.

**O'ch chi'n ifanc iawn yn dechre gw'itho nagoch chi. Shwd o'ch chi'n teimlo ymbytu gadel ysgol a mynd i witho? O'ch chi'n hapus?**

O'n, o'n. Wel, o'dd y ffactori ddim yn bell o'r ty, a fi'n credu o'n i'n cwpla ysgol ar y dydd Gwener ac o'n i'n dechre yn y ffactori ar y dydd Llun.

**O'ch chi ddim wedi cael gwylie?**

Na, dim. Gorfod gwitho'n streit. Ac o'dd hi'n amser hapus. Lot o bobol yn gwitho 'na. Ac o'dd lot o Gymra'g. O'dd dim lot o Sa'sneg ond o'dd lot o Gymra'g 'na.

**Pan o'ch chi'n mynd 'na, o'ch chi'n nabod rhai o'dd yn gwitho'n 'na'n barod o'ch chi?**

O'dd rhai o'r teulu'n gwitho 'na. O'dd e'r teip o ffactori, os o'dd teulu 'da chi'n gwitho 'na, byddech chi'n garantîd o gael jobyn.

**Fel o'ch chi wedi mynd ymbytu cael y jobyn te?**

O, ce'nder i fi. "Dere i witho i'r ffactori". A fel 'na geso i jobyn fan'na ac etho i fan'na. Geso i interview a geso i jobyn.

**O'ch chi'n gorfod 'neud rhyw brawf?**

O, do. Yn yr interview o'dd e'n rhoi tamed bach o dŵls i fi i ga'l gweld os o'n i'n gallu iwso'r sgrïwdreifar a'r twisars, a wedyn doddi hen bart bach mewn yn y wats a geso i jobyn bach.

**Beth o'dd y jobyn cynta' o'ch chi'n neud yn Tic Toc? Beth o'dd y gwaith cynta'. Fel dechreuoch chi off, chi'n gwbod?**

O'n i'n cael 'neud sawl jobyn i ga'l gweld pwy jobyn o'n i'n neud ore, i ga'l gweld shwd o'dd y llyged a fel o'ch chi'n ymdopi gyda'r gwaith chi'n gwbod. O'ch chi'n gorfod treino wedyn am dri mish. A wedyn o'n i'n ca'l mynd ach a jobyn yn well wedyn 'nny. O'ch chi'n gwitho 'da merched ac o'n nhw'n dangos i chi beth i neud.

**00.04.44: Y merched o'dd 'na'n barod o'dd yn treino chi?**

Y merched o'dd 'na'n barod, ie.

### **Ac o'ch chi'n gwitho jest mewn un man wedyn? O'ch chi'n gwitho gyda'r un merched trw'r amser?**

O'n. Fel 'line' o'n nhw'n galw fe. O'dd y merched yn ishte wedyn 'nny ar y leins. O'dd rhaid i chi ddysgu pob jobyn o'dd ar y lein achos os bydde rhywun yn ishe, bydde rhaid i chi ddysgu jobyn hi. O'dd gofyn bo' chi'n ... mobile, wedwn ni.

### **O'ch chi'n twmlo'n hapus yn gwitho 'na?**

O'n. O'dd y merched yn neis. **05.23. GAP.** Ac o'dd digon o sbri 'na a wastod lot o fenywod yn canu. A wy'n credu taw fel 'na ddysges i'r hen ganeuon, achos o'dd menywod yn canu drw'r dydd. A chi'n gwbod, falle bydde rhywun yn dawel, a'r peth nesa' bydde rhywun wedi dechre canu.

### **00.05.39: Chi'n gallu meddwl am enw un o'r caneuon o'ch chi'n canu?**

Yr hen... yr hen 'love songs'. Hits o'dd mas pry'nny, chi'n gwbod. Dofe? Nagw i'n cofio nhw nawr ar hyn o bryd.

### **00.05.55: O'ch chi'n canu gyda'ch gilydd?**

O'n. O'dd dim dal pwy o'dd yn canu. O'ch chi jest yn joino mewn, chi'n gwbod. Yr unig beth wedyn detho i'n dda ar ddodi balans, o'n nhw'n galw fe. O'dd y parts i gyd yn y ffactori, gwahanieth parts o'r ffactor.

### **00.06.14: Yn Anglo Celtic?**

Yn yr Anglo Celtic. Ond geso i i ddodi ar y balans o'n nhw'n galw fe, mewn yn y wats. Cwni fe lan yn y trê. O'n i'n ca'l yn ddysgu wedyn shwd i iwso 'eyeglass'. Ac i ddechre off o'dd fel weiar bach yn dala'r eyeglass, a wedyn 'nny acha fel hyn. Fel hyn, ac o'dd ych pen chi lawr drw'r dydd. Ond o'dd cadeiri bach 'da ni. Ac o'dd rhaid i chi ishte'n lefel â'r bench, o'n nhw'n galw fe, fel bod ych pen chi lawr am gwpwl o orie, a 'na fel o'ch chi'n neud y gwaith.

### **00.07.01: O'dd hwnna siwr o fod yn straen arno chi?**

O'dd e yn. O'dd. Ma' fe wedi strywo lot o dd'ylo menywod, a'i llyged nhw, achos o'dd y gwaith mor fach. A wedyn 'nny 'na'r teip o sgriwdreifar o'ch chi'n iwso, i sgriwio'r gwaith yn sownd, chi'n gwbod, a iwso twisârs drw'r dydd. Cwni pethach lan o fan'na, a doddi fe mewn yn y wats. 'Na'r tŵls o'n ni'n iwso drw'r dydd o'dd rheina.

### **00.07.30: 'Na ' i gyd o'dd 'da chi ife, o'dd yr 'eyeglass' ife ...**

Yr 'eyeglass', twisârs, a sgriwio fe'n sownd wedyn 'nny. Ac ar ôl i chi gwplu wedyn 'nny o'dd y gwaith yn mynd i'r ferch nesa', a'r un nesa', nes bod e'n dod i ddiwedd y wats, chi'n gwbod

### **00.07.50: O'dd sawl wats gyda chi ar y go ar y pryd te, o'dd e?**

O'dd. O'dd trê 'da ni ac o'dd rhaid i ni neud cwpwl o drê mewn diwrnod wedwn ni.

### **00.08.00: Beth o'dd yn digwydd te os nagoch chi'n gallu cwpla'r trê?**

Wel, o'ch chi'n cael row wedyn 'nny. Ie, o'dd targed 'da chi a fel 'na o'n i'n cael 'yn talu.

### **O'ch chi'n ca'l ych talu yn ôl faint o'ch chi wedi 'neud?**

O'dd master cards 'da ni. Un pinc o'dd e. Fi'n cofio hwnna. Ac o'ch chi'n gorfod gwedwch deg master card mewn un diwrnod ife, ac erbyn diwedd yr wythnos o'dd booking clerks a nhw o'dd yn gwitho mas faint o'ch chi wedi ennill yr wythnos. A fi'n cofio, amser o'n i'n

bymtheg wedwn ni, fi'n cofio ca'l, gwitho pump diwrnod, a bore dydd Sadwrn ac o'n i'n cael pump punt yr wthnos. Fi'n cofio hwnna.

**00.08.43: O'dd rhaid i chi witho bore dydd Sadwrn, o'dd hwnna'n rhan o'r wthnos?**

Na, dim rhaid ond achos o'n i'n ifanc o'n i'n lico mynd i witho bore dydd Sadwrn. Nago'dd y menywod o'dd â plant, chi'n gwbod. 'Nagon nhw'n gallu ife, ond o'n i'n meddwl ca'l pum punt yr wthnos, o'dd e'n lot o arian.

**O'dd e'n lot o arian pry' nny. Ar beth o'ch chi'n hala'r arian te?**

Wel, o'dd yn fam yn ca'l hanner ac o'n i'n ca'l hanner.

**O'dd digon ar ôl 'da chi i neud beth o'ch chi'n moyn?**

'Na'n arian poced i ife, chi'n gwbod. Two pound fifty a week wedwn ni. Ond, na, enjoies i witho 'na. A wedyn 'nny gwplws i wedyn 'nny i ga'l y plant. Etho i nôl wedyn 'nny mewn 'bytu pum mlynedd, a geso i fynd ar y watsys, pocket watch rhai dynon. Wel, mynd o wats fach fach i neud y pocket watch. Wel, o'dd hwnna'n waith mowr wedyn 'nny o'dd e.

**00.09.36 O'dd e ddim yn rhwyddach gwitho ar rwbeth fwy o seis?**

O'dd e'n rhwyddach i witho ar y pocket watch wedyn 'nny.

**O'ch chi wedi mynd yn rhan amser wedyn neu o'ch chi amser llawn?**

Na, etho i nôl yn llawn achos a'th y gŵr i witho shifft nos a etho i nôl llawn amser, a wedyn 'nny o'dd y gwaith yn mynd nôl i Birmingham wy'n credu o'dd e'n mynd. O'dd e'n cwpla. O'dd y watsys yn cwpla. So geso i i neud yn redundant. Ond geso i waith wedyn 'nny, achos o'n i wedi bod ar y watsys yn ffactori i fynd draw i'r Enfield, ffactori o'dd next door iddo fe.

**Chi'n cofio pryd o'dd hwnna?**

Bytu 1985 o'dd hwnna. A wedyn 'nny dechreuon nhw neud cloc i ddodi achs panel ceir. So o'n i'n gwitho ar y Mini lines. O'dd y gwaith yn fwy brwnt, o'dd e'n fwy trwm.

**O'ch chi'n enjoio fe yr un faint?**

Wel, o'dd e'n olreit. O'n i'n twmllo o'dd rhaid i fi fynd ife. Ond, o'dd e'n wahanieth.

**I fynd nôl â chi am eiliad i Tic Toc. Chi'n gweud bod chi wedi dechre'n ifanc iawn, o'ch chi'n gwitho gyda merched yr un oedran â chi ne' o'n nhw'n lot yn henach?**

O'dd dim dal. O'dd rhai o' ni wedi dod o'r ysgol, o'dd rhai wedyn 'nny o'n nhw gwedwch yn eu twenties.

**O'dd y rhai henach yn edrych ar ôl y rhai ifancach?**

O'dd, o'dd. O'dd yr ifanca. O'n nhw'n gweud 'tho ni beth o'dd 'na i neud ife, a dysgu ni chi'n gwbod. Fi'n cofio'r diwrnod cynta, achos o'dd e'n lle o'dd dim llwch yn cael mynd 'na o gwbl. O'n i'n ca'l overalls gwyn, a'r 'sleeves', ac o'n i'n eitha bach pryd 'nny ac o'dd yr 'overall' jest a twtsh â'r llawr. A fi'n cofio'n fam yn gorfod neud hem ofnadw' iddi nawr ife. Fel 'wrap around' o'n nhw. O'ch chi'n hala cwplw o ddyddie i ddydgu fel o'dd doddi nhw lan chi'n gwbod.

**O'n nhw'n rhoi hwnna i chi?**

O'n nhw'n rhoi hwnna i chi.

**Sawl un o'n nhw'n rhoi te? Jest un ne' o'n nhw'n rhoi sawl un?**

O na. Fallw taw un oedd hi falle. Nagon ni'n trochi ddi achos nagon ni'n ca'l byta. Os o'dd rhywun yn cael ei ddala'n byta o'dd hi'n ddiwedd y byd.

**Beth o'dd yn digwydd te?**

O'n nhw'n ca'l 'row' ofnadw.

**O'dd rhai yn ca'l eu dala?**

O'n i yn cael tyffen. O'n i'n gorfod mynd i'r cantin i fyta cino. Sangwejes o'dd pry'nny. A fi'n cofio o'n ni'n gorfod newid ein 'shoes'. Nagoch ni'n gallu gwisgo'r un shoes i fynd i'r gwaith a'r shoes i fynd mewn i'r gwaith i witho.

**O'n nhw'n rhoi sgidie arbennig i chi?**

O'n nhw yn rhoi rhai fel ryber, ond nagodd y menwod yn lico nhw. So beth o'n ni'n neud o'dd cadw pâr o sandals wy'n credu, ac o'n nhw'n marco nhw, o'dd paent coch a neud yn siwr nagoch chi'n gwisgo nhw mas.

**O'n nhw'n eitha' strict te?**

O'n nhw yn.

**Ond o'dd gofyn bod nhw ..**

Achos y llywch. O'n nhw ddim yn moyn y llywch.

**Ond mewn ffordd achos bod ddim llywch 'na, o'dd e'n lle eitha glan i weithio oedd e?**

O'dd, o'dd. Dynon o'dd yn dod i glanhau'r llawr. O'dd mop 'da nhw chi'n gw bod ac ambell waith o'ch chi'n twmlo nagoch chi moyn symud, ond o'dd rhaid i chi symud achos o'n nhw'n moyn y llywch, os o'dd llywch ar y llawr.

**So gyda menywod o'ch chi'n gwitho fwya, o'ch chi ddim yn gwitho gyda dynon?**

Dynion o'dd y charge hands o'n nhw'n galw nhw. Nhw o'dd yn dod â'r gwaith, estyn y gwaith i ni, a mynd â'r gwaith wrthon ni, a gwedwch nawr o'n i ffael neud rhywbeth bydde un o reina'n dod mewn a dangos i ni beth o'dd i neud. Bydde'n nhw'n gweud 'wel, treial e fel hyn' neu 'na fel 'na'. Wy'n cofio hwnna.

**Beth am y bobl o'dd yn goruwchwylio, siecio'r gwaith, ife dynon o'dd rheina 'fyd?**

Dynon o'dd rheiny. Inspection o'n nhw'n galw rheina. Dynon o'dd yn neud hwnna. A dynon o'dd yn reparo'r watsys wedyn 'nny. O'dd y gwaith i gyd yn cael ei siecio cyn mynd mas ac os o'dd rhywbeth yn ffael o'dd e'n dod nôl wedyn 'nny. A'r dynon o'dd yn neud y gwaith. Ond o'n nhw wedi neud aprentis so o'n nhw'n deall beth oedd yn bod ar y watsys.

**Oedd apprenticeships i gael nago'dd e? Ife dim ond bois o'dd yn neud nhw.**

Dim ond dynon.

**A crits yn dod o'r ysgol o'dd yn neud apprenticeship?**

Ie, ie.

**Nagodd merched yn cael cyfle?**

Nagw i'n cofio'r menywod yn dysgu dim byd fel na. Fi'n cofio o'dd Tool Room ble o'dd dynon, apprentices yn neud y tools. Nhw o'dd yn neud y tools i gyd a dynon wedyn 'nny fel charge hands a foremen. O'n nhw wedi cael apprentice(ship) i neud hwnna.

**Chi'n credu bydde rhai o'r menywod wedi lico neud y math 'na o beth?**

Nagw i'n gwbod. Nagw i'n cofio yn neud dim byd fel 'na. Menywod o'dd yn gwitho.

**Fel 'na o'dd pethe.**

Ie. Ie. Yn ble o'n i ta beth, chi'n gwbod. O'dd machine shop wedyn 'nny. O'dd hwnna'n le brwnt ofnadw ond o'dd menywod yn gwitho ar y machines fan 'na. Ond o'n nhw mewn 'green' i gyd a'r menyg. O'dd neb o'n ni moyn. O'n ni yn cael 'yn threaten o ambell waith bydden ni yn ca'l mynd lawr fan 'na i witho, ond o'dd neb ohonon ni moyn mynd. O'n i'n byhafio.

**O'ch chi'n gweud nawr o'ch chi'n nabod rhywun o'dd yn gwitho 'na, o'ch chi'n nabod digon o bobl o'dd yn gwitho 'na, o'dd aelod arall o'r teulu 'na wedoch chi.**

O'dd. O'dd sawl un o'r teulu 'da fi'n gwitho 'na.

**O'dd e'n gartrefol 'na?**

O'dd.

**Achos o'dd lot fawr o bobl yn gwitho 'na.**

O'dd 'bytu mil o bobl fi'n credu yn gwitho yn yr Anglo pryd'nny.

**A chithe'n mynd 'na'n ferch ifanc. Beth oedd yr argraff gynta' o'ch chi'n ca'l. O'dd sw'n 'na?**

O'dd dim sw'n 'na. O'dd hi'n dawel le o'n i. Ond, chi'n gwbod, yn shei, chi'n gwbod. O'n i yn un fach shei. Ond fel ma' nhw'n gweud, 'na'r ysgol ore erio'd o'dd mynd i witho'n Tic Toc. Achos o'ch chi ddim yn shei yn hir, achos o'dd pob un yn chi'n gwbod, o'n nhw'n neud i chi joino mewn. O'n. A'r canu a'r.. o'dd lot o beire wedi priodi.

**O'dd 'na?**

O'dd. Teulu fi. Sawl un wedi priodi â rhai o'dd yn gwitho 'na.

**O'dd lot o stori caru yn dod mas o'r ffactri te?**

O'dd. O'dd. Fi'n cofio. Sa i'n gwbod os chi'n moyn i fi weud e. Os o'dd rhywun yn priodi, y merched yn priodi. O'n i gyd yn drede fe. Ar ôl cino ar dydd Iau, o'n i'n ca'l mynd i'r toilets. O'n i'n ca'l yn drago mewn i'r, toilets o'n i'n galw fe, ond o'dd room arall te, ond toilet. Ac o'n i'n ca'l 'yn taclu lan. Ac wrth gwrs, o'dd dim trwseri pryd 'nny. O'dd pawb yn sgerts, a teits ife. Wel oedd y confetti'n dod mas wedyn. O'dd e lawr y teits i gyd a lawr y dillad, arnon ni i gyd. A wedyn 'nny o'n nhw'n neud head dress i ni. A'r veil.

**Mas o beth o'n nhw'n neud nhw te?**

Wel, o'dd y veil yn dod o ryw hen net cyrtens. O'dd pethach yn hongan ar y veil ife. O'n i gyd yn drede fe. A wedyn 'nny o'n i'n ca'l bwced. A pethach i glanhau o'dd yn y bwced. A mop. A wedyn 'nny o'n i'n gorfod cerdded nôl a mla'n, a wedyn 'nny o'dd y merched yn canu 'Here Comes the Bride' a, 'I'm Getting Married in the Morning'. A caneuon fel 'na. Pob un yn canu ife.

**Mae'n swno fel lot o sbort.**

O'dd e yn lot o sbort.

**Digwyddodd hwnna i chi, nethon nhw fe i chi?**

Do. Chi'n gweud am crinjan. O'dd e'n ofnadw. A oedd rhai ddim yn fodlon ond o'n ni'n ca'l 'yn tynnu gyda'r breichie. O'n ni'n gorfod mynd so 'run man bo' chi'n mynd yn y lle cynta'.

### **I gael e drosto gyda ife?**

O'dd dim gwaith yn ca'l ei neud wedyn 'nny ar brynhawn dydd Iau. O'n i gyd wedi bod yn fishi drw'r wythnos, a wedyn 'nny o'n i gyd yn ca'l y sbort hyn ar brynhawn dydd Iau.

### **Ond beth o'dd y bosys yn gweud wedyn 'nny os o'dd?**

Wel, o'n nhw'n rhoi lan, o'n nhw'n ishte nôl. 'Carry on' o'n nhw'n gweud. O'n nhw'n wherthin. O'dd y bechgyn yn ca'l eu taclu lan hefyd.

### **O'n nhw?**

O'dd y bechgyn yn ca'l top hats. 'Na'r siort o'n nhw'n ca'l. Nagw i'n credu o'n nhw'n ca'l bwced. 'Nagw i'n cofio. Ond o'n nhw'n ca'l eu taclu lan hefyd. Nagon nhw'n lico fe.

### **O'dd lot o ferched yn cwpla ar ôl priodi te, neu o'n nhw'n cario mla'n?**

Cario mla'n wedyn 'nny, nes bod rhai'n ca'l babis ife, neu os o'dd rhywun yn symud i rwle. Ond, na o'dd hi'n amser hapus o'dd rhaid i fi weud.

### **O'ch chi'n siarad bod hi'n gartefol 'na, er bod lot o bobol yn gwitho 'na. Pwy iaith o'ch chi'n siarad te?**

Cymra'g o'dd lot. O'dd ambell un Saesneg achos o'n nhw'n dod o, wel, o Abercraf, Pontardawe, Ystradgynlais, lawr yr area 'na chi'n gwobod. O'dd rhai yn dod o Brynaman. Ond o'dd dim lot o' nhw'n dod o Brynaman. Fi'n credu o'n nhw'n mynd lawr i Rydaman i witho. Ond lawr y pen Cwm Tawe.

### **Fel o'ch chi'n mynd i'r gwaith te?**

Bys.

### **Ife bys y gwaith o'dd e?**

Ie. Fi'n cofio pump double decker yn dod o'r ardal hyn i gyd. O'n nhw'n pigo ni lan ar y ffordd lawr, chi'n gwobod.

### **O'ch chi'n ca'l sbort ar y bys?**

Fi'n credu o'n ni. Fi'n cofio ar ddydd Sadwrn, o'dd dim bys. O'n i'n gorfod cerdded i'r gwaith wedyn 'nny. Ond nago'dd e'n bell ife. Ond snwb yn cerdded heddi os e?

### **Pwy amser o'ch chi'n dechre te?**

O'n i'n dechre am hanner awr wedi saith a cwpla am bedwar.

### **O'dd e'n twmlo fel diwrnod hir achos o'ch chi'n neud gwaith bach, gwaith cain 'ma drw'r dydd?**

Wel, falle o'dd ambell i ddiwrnod yn hir falle. Nagw i'n cofio. O'dd shwd gymint o waith yn mynd mla'n 'na chi'n gwobod. O'n i'n ca'l brêc, brêc yn y bore ife. Wy'm yn cofio os o'n ni'n byta yn y bore. Nagw i'n cofio. Nagw i'n cofio os o'n ni'n byta yn y prynhawn, chi'n gwobod. Nagw i'n cofio 'na. Fi'n cofio mynd i'r cantfn amser cino. O'n i'n ca'l awr o gino.

### **O'ch chi ddim yn mynd â bwyd te? O'ch chi'n ca'l pryd o fwy?**

Na. Sangwejes fi'n credu o'dd gyda fi.

**Ond o’dd cantîn i ga’l ‘na.**

O’dd cantîn i ga’l ‘na. O’dd. O’dd hi’n .. O’dd hi’n amser hapus.

**O’dd dim ishe cymwystere neu unrhyw qualifications i fynd mewn. O’ch chi’n siarad am y ffordd dechreuoch chi a gethoch chi’r prawf ‘ma gyda’r, gyda un o’r supervisors. O’ch ch chi ddim yn gorfod ca’l unrhyw fath o qualifications?**

Na.

**Ond o’ch chi’n gallu dangos...**

O’dd rhaid bod rhywbeth ‘da chi bod chi’n gallu proovo i nhw. O’dd dim pob un yn ca’l y jobyn. O’n i’n gwitho ‘da merch, Carol, yn byw ar ‘yn fwys i gatre, a gas Carol ddim jobyn.

**Smo chi’n gwbod pam?**

A’th hi i Berleis wedyn ‘nny. Ond o’dd dim pob un yn ca’l. Fi’n credu achos o’dd perthynas i fi ‘na ‘fyd, o’dd y foreman wedi gorfod rhoi jobyn i fi, fi’n credu chi’n gwbod.

**O’ch chi’n gorfod cloco mewn te?**

O’dd. O’dd cards ‘da ni. O’dd handle iddo fe. A wedyn ‘nny o’ch chi’n doddi fe nôl ar y rac. Amser o’ch chi’n dechre o’ch chi’n while ar y rac. O’ch chi ddim yn gwbod, o’ch chi ffael ffindo, chi’n gwbod, le o’ch e.

**O’dd neb yn gallu neud hwanna drosto chi?**

Wel, o’dd tsieto. Gwedwch nawr bod rhywun wedi cysgu’n hwyr, o’dd ambell un bach yn cloco mewn. Netho i fe’n hunan, cloco mewn. A’r un peth ar fore dydd Sadwrn. Os o’dd rhyw ferched wedi bod mas nos Wener, nagon nhw’n dod nes ‘bytu wyth o’r gloch, ond o’dd y cloc yn reit o’dd e. Ffrind bach wedi bod yn cloco iddi.

**Mae’n neis i gae’l ffrindie fel ‘na?**

O’dd. A’r peth arall fi’n cofio wedyn ‘nny ar brynhawn dydd Gwener, o’dd merched yn mynd mas ar nos Wener. A o’dd y rowlars. O’dd hi fel hairdressar yn y room fach hyn ar bwys y toilet. O’dd pob un yn ca’l ei gwallte wedi neud. O’dd y foremen, chi’n gwbod, o’dd shwd gwmint o sbri. Nagon nhw’n stopo ni chi’n gwbod.

**O’n nhw’n gyflogwyr teg te, chi’n meddwl.**

O, o’n. Dim ond i chi witho. Chi’n gweld o’dd rhaid i chi neud eich targed. Dim ond so much o whare ymbythdu o’ch chi’n ca’l.

**O’ch chi’n twmlo bod y supervisor, y bobl o’dd yn sieco, yn goruwchwylio o’n nhw’n deg hefyd. Ma’ hwanna’n eitha pwysig ondywe, fel eich bod chi’n gallu teimlo’n hapus yn y gwaith.**

Ond y canu fi’n cofio, am y canu. Fel ‘na dysges i’r hen ganeuon, y love songs i gyd, chi’n gwbod achos bydden i ddim wedi dysgu nhw yn yr ysgol. A fi’n cofio wedyn ‘nny pan o’n i’n mynd mas, fi a’r gwr yn mynd mas os o’n ni’n ca’l rhywun i fynd â’r plant. Chi’n gwbod, mewn tafarne pry’nny, o’n nhw’n canu. Wel, o’n i’n gwbod y caneuon achos o’n i wedi’u dysgu nhw, chi’n gwbod.

**O’dd y ffatri fel ysgol te?**

O’dd.



**O’dd lot o dynnu co’s a pethach fel ‘na o’ch chi’n gweud. O’dd rhai o’r menywod yn gallu bod tamed bach yn ffraeth, chi’n gwbod, tamed bach yn ‘rude’ ambell waith?**  
O’dd, o’dd. O’dd lot o bethach bach drwg yn mynd mla’n.

**Ma’ hwnna’n ffordd o ddysgu ‘fyd ondywe?**

‘Na’r ysgol ore, ‘na beth o’n nhw’n gweud ‘tho ni ife. Chi’n gwbod, o’n i’n sheit. Ond o’dd lot o bethach bach yn mynd ‘mla’n. Ife? Nagon nhw fod i neud e ond o’n nhw yn neud e?

**O’dd rhwbeth o’ch chi ddim yn mwynhau neud? O’dd rhwbeth o’ch chi ddim yn mwynhau ymbytu bod ‘na? Fi’n gwbod o’ch chi gorfod gwitho’n galed.**

Os och chi’n gorfod gwitho gyda rhyw ferch fach o’ch chi ddim yn lico, chi’n gwbod.

**O’ch chi’n styc gyda hi wedyn?**

Ambell i ddiwrnod o’ch chi yn styc ‘da hi. Nes bo chi’n dod i nabod hi a chi’n treial pleso hi a... Nagon i’n lico rhywbeth fel ‘na. Ond achos o’n i mor shei.

**Ac wrth gwrs, chi ffaelu dewis gyda pwy o’ch chi’n gwitho.**

Na, ac o’dd ambell i un yn gweud ‘tho chi bod rhaid i chi neud e. O’dd hi’n dod peil o waith yn barod i chi, chi’n gwbod. Jest i ga’l sbeito chi. O’dd ambell i un bach fel ‘na.

**Chi’n ca’l hwnna bobman y’ch chi?**

O’dd. Ma’ hwnna’n bobman, ydy.

**Wedoch chi bod ych job chi wedi newid ar ôl i chi ddod nôl (ar ôl cael plant). Chi’n gwbod, o’ch chi’n neud jobyn gwahanol yn y ffatri, ar ol dod ar ôl cael plant.**

Etho i ar y pocket watches wedyn ‘nny. A o’n i’n lico hwnna. Ond o’dd lot o ddynon yn gwitho fan’na.

**O’dd yr awyrgylch yn wahanol wedyn ‘nny achos bod dynon ‘na?**

Na, dim rili. Na. Nagw i’n cofio lot o hwnna achos o’dd e jest a cwpla amser etho i iddo fe, chi’n gwbod. Fi’n cofio neud rhain (POCKET WATCHES). O’dd rhain yn mynd mas i America. O’dd rhwbeth mla’n yn America. Fel, centenary, rhwbeth fel ‘na.

**Achos ma’ rheina’n hen ffasiwn iawn.**

Ma’ hwnna wedi craco. Bydd rhaid i fi ga’l glass newydd iddi.

**O’dd unrhyw, chi’n gwbod ar ôl i chi fod yn gwitho ‘na ers sbel o’ch chi’n ca’l mwy o training, ne jest dysgu ar y job wedyn. O’n nhw ddim yn trefnu unrhyw hyfforddiant i chi wedyn o’n nhw.**

Na, o’dd merch yn dod i ddysgu chi. O’dd hi’n ishte ‘da chi wedyn ‘nny ... o’dd hi’n gallu rhoi jobyn i fi wedyn ife.

**Faint o amser o’dd hwnna’n para wedyn te?**

Nagw i’n gwbod. Rhyw wthnos fach falle. Sa i’n cofio.

**Ond o’dd hwnna’n effeithio faint o arian o’ch chi’n ca’l wedyn? Os o’ch chi’n gorfod ishte a dysgu fel i neud rhwbeth, byddech chi ddim yn gwitho mor gloi.**

Na, byddech chi ddim mewn yn yr ... Ar un lein, fi’n cofio, o’dd e’n dependo beth o’dd y lein yn neud a fel ‘na o’n nhw’n ca’l eu talu. Nagoch chi’n ca’l ych dod i mewn yn eu bonys nhw nes bod chi’n dod yn qualified, chi’n gwbod. Wedyn ‘nny o’ch chi’n ca’l.

**A beth o'n nhw'n galw, ife'r Assembly, o'n nhw'n galw fe?**

Yr Assembly o'n nhw'n galw ble o'n i. A fi'n cofio yn yr haf, achos o'dd dim ffenestri, dim ond fel glass o'dd e, o'dd y dynon, o'n nhw'n mynd mas a o'n nhw'n doddi fel hose pipes wedyn 'nny ar y ffenestri i ga'l cwlo'r ffenestri lawr. Achos o'dd hi mor dwym 'na yn yr haf. Fi'n cofio hwnna. O'dd fel hose pipes fire brigade 'da nhw, chi'n gwbod, ac o'n nhw'n golchi'r ffenestri i gyd.

**Ond o'ch chi gyd yn yr un ystafell te?**

O'dd e'n un building mawr lan y llofft le o'n i. A wedyn 'nny o'dd building lawr llawr hefyd.

**O'dd hwnna siwr o fod yn rhywbeth i weld te, yr holl bobl yn gwitho?**

O'dd, a wedyn o'dd gwahanieth watsys yn cael 'u neud o'r llawr. Chi'n gwbod o'ch watsys dynon, sawl siort o watsys yn cael 'u neud.

**O'ch chi'n ca'l unrhyw perks, gan bod chi'n gwitho mewn ffatri watsys o'ch chi'n ca'l discownt, neu o'ch chi'n ca'l unrhywbeth wrth y cwmni?**

O'dd siop 'na yn gwerthu pethach. A 'na fel pyrnes i'r pocket watch 'na i'r gwr. A byrnes i'r wats fach arall i fi. O'ch chi yn ca'l nhw'n siepach.

**O'n nhw'n neud pob math o watsys nagon nhw?**

O'n. Ond o'dd y Smiths badge arno fe.

**Rhai dynon...**

Dynon, menywod..

**A plant?**

O'dd, o'dd. A wedyn 'nny o'dd fel watsys mowr, o'dd rheina'n neis. Nagw i'n gwbod os o'n nhw'n doddi rheina ar y wal, fel pocket watches mowr, chi'n gwbod, a gwyneb mowr arnyn nhw.

**Ond o'dd y menywod i gyd yn neud yr un gwaith, chi'n gwbod beth wy'n feddwl? O'dd dim menywod priod yn neud gwaith rhan amser, ne gwaith gwahanol er enghraifft.**

Na, o'n nhw'n micso'r oedran lan. Achos o'dd y parts i gyd yn ca'l 'i neud fel yn y machine shop, a gwahanieth. A wedyn o'n nhw gyd yn dod lan aton ni. O'dd trolis yn dod wedyn 'nny, a'r gwahanieth parts i ddodi mewn yn y watsh. A o'dd rheina i gyd yn dod lan. Wedyn 'nny lan 'da ni o'n nhw'n ca'l 'u doddi 'da'i gilydd te.

**Shwd o'ch chi'n ffindo gwitho 'na ar ôl mynd nôl os o'dd plant 'da chi? O'ch chi'n gweld hwnna'n galed?**

O'dd e yn galed. O'dd. O'dd.

**Newn ni ailddechre nawr, jest yn ca'l chat bach am yr arian. Chi wedi sôn yn barod faint o'ch chi'n ca'l. O'ch chi'n ca'l pump punt. Ydych chi'n cofio ca'l codiad cyflog tra bod chi 'na? Gethoch chi godiad yn y cyflog?**

Nagw i'n cofio.

**Mae'n iawn.**

Fi'n cofio am y bump punt, chi'n gwbod.

**A fel o'ch chi'n ca'l ych talu wedyn?**

O'dd pay packet. A'r arian yn dod o'r pay office wrth gwrs. A fi'n cofio o'n i'n gorfod ciwo lan wedyn 'nny ar brynhawn dydd Gwener, ac o'dd y pay packets yn ca'l eu rhoi mas, chi'n gwbod.

**O'ch chi'n torri fe ar agor wedyn 'nny o'ch chi?**

O, na!. O'n i'n gorfod fynd â fe nôl i'r ty. 'Yn fam o'dd yn agor, a hanner i fi a hanner iddi hi.

**A shwd deimlad o'dd hwnna wedyn, yn enwedig yr un cynta'?**

Wel, o'dd e'n od, o'dd e. O'dd.

**Ond o'dd e siwr o fod yn neis ca'l ych arian ych hunan fel 'na?**

O'dd. O'dd.

**O'dd pawb yn ca'l yr un peth? Tua'r un peth, ne o'dd rhai ar grades gwahanol.**

Na, o'dd rhai gwahanieth oedran. So o'n nhw'n ca'l fwy wedyn 'nny ife. Nagw e'n gwbod faint o'dd rhai ... Dros 21 yn ca'l ten. Nagw i'n gwbod faint o'n nhw'n ca'l. Nagw i'n cofio'n Anti yn gweud faint o'dd hi'n ennill chi'n gwbod.

**Ydych chi'n cofio os o'dd undeb ne rwbeth fel 'na?**

O'dd. O'dd undeb 'da ni.

**O'n nhw'n helpu? O'n nhw'n eitha da?**

O'dd fi'n credu. Nagw i'n cofio lot o complaints fi'n credu.

**Os oedd problem gyda chi te beth byddech chi'n neud, neu a pwy byddech chi'n siarad?**

Wel, o'dd convener 'na wedyn 'nny a byddech chi'n mynd i siarad â fe os o'dd problem gyda chi am rwbeth.

**O'ch chi'n aelod o'r undeb?**

O'dd. O'dd rhaid i chi fod yn aelod o'r Undeb.

**O'dd rhaid i chi dalu wedyn o'dd e?**

O'dd so much yn mynd mas o'r pai wy'n credu. Nagw i'n cofio faint.

**O'ch chi moyn bod yn aelod o'r Undeb?**

Wel, fi'n credu o'dd rhaid i ni fod.

**O'dd e'n rhwbeth o'dd pawb yn neud?**

O'dd.

**Ni wedi siarad am yr iwniform yn barod, o'ch chi'n gorfod gwishgo rhwbeth am eich pen?**

Nagodd. Dim ond yr cotton, un gwyn o'dd hi. Long sleeves a jest bod lawr i'r llawr. A'r fel wrap-around o'dd hi. Fi'n cofio o'dd hi'n galed i smwddo.

**Chi o'dd yn gorfod golchi?**

O'n i'n mynd â hi gatre, a smwddo, fi'n cofio hwnna.

**Ond o’dd hi ddim yn mynd yn frwnt yn ystod yr wthnos?**

Wel, na. Nagw i’n credu. Achos dodi ddi ar ben dillad o’dd hi. Nagw i’n cofio stripo te wedwn ni ife. Ond wy’n cofio newid y shoes.

**Oedd unrhyw waith peryglus yn y ffatri? O’ch chi’n iwso’r pethe bach ‘na (TOOLS) o’ch chi ddim yn ca’l anaf?**

Wel, bydde fe lawr yn y Machine Shop. O’dd rhai’n torri cwte lawr fan ‘na, le o’dd machines a pishys o steel yn siarp. O’n nhw yn ca’l accidents lawr man ‘nny. Ond nagw i’n cofio neb yn ca’l accident, chi’n gwbod, ca’l ei bys off.

**Diolch byth.**

Nagw i’n cofio pethach fel ‘na, chi’n gwbod ife. Walle bydde rhai’n henach wedi gallu gweud ‘na.

**Os o’ch chi’n ca’l cwt, o’ch chi’n ca’l cwt yn iwso rhywbeth fel hyn?**

Na. Nagw i’n cofio.

**O’n nhw’n gorfod bod yn strict ynglyn â llywch a pethach fel ‘na, o’dd unrhyw reole erill? O’ch chi’n gweud bod chi ddim yn ca’l byta.**

Na. Nagon ni’n ca’l byta. Lle bod dim cryms yn dod o’r bara i fynd ar y bench.

**O’ch chi’n ca’l yfed?**

Na, heblaw bod ni’n gorfod mynd mas i’r rwm bach hyn o’dd ‘da ni ar bwys y toilets. Walle o’n i’n mynd mas fan ‘na.

**O’ch chi’n ca’l mynd i’r ty bach pryd o’ch chi’n moyn?**

O’n ond bydde dim iws mynd sawl gwaith y dydd wedwn ni.

**Bydde rhywun yn sylwi a byddech chi’n ca’l stwr wedyn?**

Bydde, bydde.

**Sut o’dd y cyfleustere i olchi, y ty bach a ...**

O’dd menyw gyda ni’n c’lau’r toilets. Peggy fi’n credu o’dd enw ddi. O’dd e ar gi’ed am ryw awr yn y bore a o’dd neb yn ca’l mynd.

**A dyna ei swydd hi?**

Ie. O’dd hi’n glanhau’r toilets.

**So o’ch chi’n gweud o’dd dynon yn glanhau’r llawr.**

Y dynon o’dd â’r mops, yn c’lau’r llawr a’r menywod o’dd yn c’lau’r toilets.

**O’dd hi’n c’lau rhywle arall te?**

Na, dim ond toilet lady o’dd hi.

**Jiw, o’dd popeth ‘da chi ‘na o’dd e?**

Wel, o’dd pry’nny, o’dd.

**O’dd e fel pentre bach o’dd e.**

O’dd. O’dd lot o sbri ‘na.

**Achos bod dim swm 'na o'ch chi'n rhydd i siarad wedyn o'ch chi? Chi'n gwbod, o'dd e'n rhwydd i siarad?**

O'dd. O'dd dim miwsig na dim 'na. Ond fi'n credu o'dd 'yn penne ni lawr shwd gymint drw'r dydd. Walle o'ch chi'n siarad â'r ferch next door. Ond bydde chi ddim yn crio lawr fan 'na. Neb. O'dd e'n le dawel.

**O'ch chi'n gorfod aros ble o'ch chi'n gwitho.**

O'n. O'n.

**O'dd rheole Iechyd a Diogelwch yn bwysig 'na? Chi'n gwbod fel 'ma pethach heddi, ma' popeth yn Health and Safety, ondywe. Chi ddim yn ca'l symud. O'dd hwnna'n wir i chi pryd 'nny?**

Na, nagw i'n credu o'dd e.

**Falle achos bod y gwaith ddim mor beryglus â 'na.**

Fi'n cofio'r lifft. O'dd lifft dwy ochor, le o'n nhw'n mynd â'r gwaith o un llawr i'r nall. O'dd y lifft yn mynd yn styc ambell waith. O'dd e'n mynd yn styc yn ganol llawr.

**Gyda chi ynddo fe?**

Wel, ie. Os nagoch chi'n gwasgu fe'n reit. O'dd y dynon yn dod wedyn 'nny. Os byddech chi wedi mynd yn ishe am sbel fach o'n nhw'n dod i whileo amdanoch chi. Achos o'dd y lifft ddim yn reit. O'dd e'n hen ife. Yr unig beth fi'n cofio o'dd hwnna.

**O'dd 'larwm yn y lifft i chi?**

Bownd o fod. O'dd. Fi'n cofio'r lifft yn mynd yn styc. Les o'dd gormod o bwyse yn y trê, o'dd e'n mynd yn styc. O'n nhw'n dod i reparo nhw fi'n credu. Yr unig beth wy'n gallu cofio yw hwnna.

**00.36.40 O'ch chi'n gweud nawr bod chi'n gallu siarad wrth neud ych gwaith, o'dd hwnna ddim yn broblem i'r rhai o'dd yn edrych drosto chi. O'n nhw'n ddigon hapus bod chi'n clebran.**

O'dd fi'n credu. Nagw i'n cofio bo' chi'n ca'l stwr amdano fe ond nagon ni yn siarad.

**Pam nagoch chi'n siarad te?**

Achos o'n i'n gorfod neud 'yn gwaith.

**O'ch chi'n gorfod canolbwyntio.**

O'dd rhaid ni, neud yn siwr bod y gwaith yn reit. O'dd targed 'da ni i neud.

**Chi'n cofio neud camgymeriad ambell waith, ne o'ch chi wedi hen gyfarwddo?**

Wel, chi'n dod i ddysgu i neud e. Walle o'n i yn neud e ar y cynta'. Ond os o'ch chi ffaelu neud o'dd dyn yn dod i helpu wedyn 'nny. O'dd e'n treial sorto fe mas wedyn 'nny. Ne falle o'dd rhwbeth yn bod ar y balans cyn boch chi'n ca'l e. Chi'n gwbod o'dd e'n mynd nôl i'r Section wedyn 'nny ac o'n nhw'n sieco'r trê wedyn 'nny ife.

**O'dd mwy o bobl yn smoco blynydde nôl fi'n credu. O'dd rheina'n gallu ...**

O'n nhw'n mynd mas i'r rwm o'dd 'da ni pryd 'nny ife. Wel, wrth gwrs o'n ni gyd yn aros yn yr un rwm. A chi'n gwbod o'dd merched yn smoco.

**O’dd lot pry’nny nagodd e?**

Lot. O’n nhw’n agor ffenestri. O’dd ffenestri ar bwys y toilets, y rwm y toilet, so o’dd rheina’n olreit.

**Beth o’ch chi’n ca’l amser brêc te, o’ch chi’n ca’l te ne rwbeth?**

O’dd troli’n dod rownd.

**Dim tu fewn y ffactri.**

Na. Mas. O’dd troli’n dod rownd a’r mygs mowr hyn chi’n gwbod. O’n nhw’n terrible. Le o’ch chi’n gallu pyrnu botel fach o bop fi’n credu o’n i’n ca’l chi’n gwbod. Ond dim byta. Nagodd y troli’n cario dim i chi i fyta.

**O’ch chi’n gorfod talu am beth o’ch chi’n ca’l?**

O, o’n.

**O’n i’n siarad gynne, gan taw gwaith cain yw hwn, gwaith manwl, ydych chi’n credu bod chi wedi godde unrhyw effeithie ar ôl ‘nny?**

Wel, ma’ gwynegon arno i ond ngyw i’n gweud bod hwnna wedi neud e. Falle sen i wedi neud e am flynydde, falle bydde fe wedi.

**A beth am y llyged? Ydyw e wedi effeithio’r llyged chi’n meddwl?**

Wel, ma’ fe wedi gydag amser, wedwn ni ife, chi’n gwbod. Ond o’n nhw’n dueddol o gadw rhai ifainc ar y gwaith bach. Y rhai henach yn mynd ar y gwaith fwy o seis te.

**Shwd o’dd y menywod, chi’n gwbod o’dd bechgyn ifainc yn dod mewn fel apprentices nago’dd e. O’n nhw’n gwitho yn yr un lle?**

Na, o’dd section ei hunan gyda nhw. Fi’n credu o’dd apprentice p’un os o’dd e’n dair blynedd neu pump blynedd.

**O’dd e’n sbel o’dd e.**

O’dd e yn.

**O’ch chi ddim yn gweld lot ohonyn nhw te?**

Na, o’n nhw mewn sections eu hunen.

**So o’ch chi ddim yn tynnu coese nhw pan o’n nhw’n dechre te?**

Wel, ar ôl i nhw ddod wedyn o’n nhw’n dod i witho le o’dd y menywod yn gwitho. A nawr o’n nhw’n cwrdd â’r merched wedyn ‘nny ac o’dd sawl un wedi priodi ife. A fan ‘na o’n nhw’n dod. Ond o’n nhw’n shei hefyd amser o’n nhw’n dechre’n bymtheg o’dd wedwn ni ife.

**Ond o’dd y menywod hyn ddim yn tynnu co’s.**

O, o’n. O’n nhw yn tynnu coese pawb ife. Bydden nhw ‘di whare rhyw dric bach arno chi. Beth o’n nhw yn lico neud o’dd paento hwnna’n ddu (RIM OF THE EYEPIECE), tu fewn a wedyn ‘nny bydde chi wedi cerdded rownd a bydde black eye arno chi wedyn ‘nny.

**Byddech chi fel morleidr.**

Chi’n gwbod, o’n nhw yn whare tricie arno chi. Dim ond hen dricie bach, dim tricie drwg.

**O’ch chi ffaelu deall pam o’dd pawb yn wherthin wedyn.**

Wel, o’n nhw’n wherthin ac o’n nhw’n paento hwnna’n ddu tu fewn.

**Ac o'ch chi'n neud e i bobl erill wedyn.**

O'ch chi'n neud e i bobl erill 'fyd. O'n.

**Pam ethoch chi nôl i gwaith wedyn 'nny ar ôl ca'l y plant, o'ch chi'n gwitho shifft dydd, a beth o'dd yr orie? O'dd yr orie yr un peth?**

Hanner awr wedi saith.

**Yr un orie te?**

Ie.

**Ac o'dd y gwr wedyn 'nny wedi mynd i witho shifft nos.**

O'dd. Wy'n cofio wedyn 'nny, da'th swing shifft mewn 'na, dechre am hanner awr wedi pedwar a cwpla am naw fi'n credu, ac wrth gwrs amser o'dd y gŵr ar streic gyda'r miners o'n i'n neud extra shifft, swing shifft. O'dd hwnna'n galed, ond 'na fe o'n i'n neud e.

**O'dd hwnna'n gyfnod anodd.**

O'dd. Parws hwnna blwyddyn wedwn ni.

**Lwcus bod chi'n gwitho te?**

O'dd, o'dd.

**Heb 'nny bydde dim byd 'da chi?**

O'dd e'n ofnadw.

**A o'dd e wedi para.**

O'dd. Parws e flwyddyn.

**A wedyn pam bod chi wedi mynd nôl i witho ar ôl ca'l plant o'ch chi a'r gŵr wedi cytuno byddech chi'n mynd nôl. Fel dethoch chi?**

Ie. Wel, geso i gynnig jobyn nôl achos o'dd y teulu eto a .

**O'dd rhywun o'ch chi'n nabod wedi gweud?**

Wel, o'dd. O'dd dou gefnder 'da fi a o'dd anti 'da fi, dwy anti 'da fi. O'dd sawl un yn perthyn i fi 'na.

**A beth o'n nhw'n neud wedyn 'nny? Dod i weld chi a gweud, 'ma' jobs yn mynd'?**

Wel, ie. 'Wyt ti'n moyn dod nôl ne' rhywbeth fel 'na chi'n gwybod ife. A wedyn o'n nhw'n dod i'n enw i mewn a wedyn 'nny o'n i'n ca'l jobyn bach nôl wedyn 'nny.

**Shwd o'n nhw'n dod atoch chi achos bod nhw'n gwobod bod chi'n gallu neud y gwaith?**

Wel, ie. O'n nhw'n treial chi ar sawl jobyn wedyn 'nny ife, chi'n gwobod.

**Pwy jobsys o'dd ych teulu chi'n neud?**

'Yn ddou gefnder – o'n nhw'n foremen. O'n nhw wedi ca'l 'u apprentices ar y watsys a cloce a popeth fel 'na. So o'n nhw, nhw o'dd yn gofalu am y merched.

**O'ch chi siwr o fod yn gweld lot o'r bobl o'dd yn gwitho 'na tu fas y gwaith o'ch chi?**

O'n. Nagw i'n gweld fowr o neb nawr, heblaw os af i Tesco ne' Asda ne rwbeth. Wy' yn gweld ambell un ond na, ma' lot o' nhw wedi mynd erbyn nawr, druan â nhw ife.

**00.43.14 O’dd unrhyw drips yn mynd o’r gwaith?**

O’dd. Etho i ddim arnyn nhw achos o’n i’n rhy ifanc. Ond o’dd wastod trips ac o’dd clwb gyda nhw. Clwb Tic Toc o’n nhw’n galw hwnna, le o’dd, le o’n nhw mynd i gymdeithasu, chi’n gwbod. Clwb yfed wedwn ni. Ac o’dd trips ‘da nhw.

**Ble o’n nhw’n mynd te?**

Gwahanieth llefydd wy’n credu. Nagw i’n cofio ble o’n nhw’n mynd, dofe, ond o’n nhw’n itha hurt te.

**Pwy o’dd yn mynd ar y trip? O’ch chi’n gweud bod chi ddim yn mynd.**

Wel, o’n i’n ifanc. O’dd y plant ‘da fi. Nagon i’n mynd dofe. Ond o’dd y teulu’n mynd, fi’n gwbod o’n nhw.

**Nage dim ond y dynon o’dd yn mynd?**

O’dd y menywod yn mynd fyd.

**O’n nhw’n mynd yn bell?**

O’n nhw’n mynd am y diwrnod fi’n credu. Falle delen nhw ddim nôl tan y diwrnod ar ôl ni.

**Real sbort te.**

O, o’dd. O’dd sôn am y Tic Toc pry’nny.

**O’dd, fel galla i weud, “gossip”. Os o’dd rhwbeth yn digwydd o’ch chi gyd yn trafod y pethe.**

O’dd. Erbyn dydd Llun, o’dd lot yn ca’l gwbod beth o’dd wedi hapno weekend.

**Beth o’dd y peth mwya o’ch chi’n trafod? Pwy o’dd yn gweld pwy?**

Pwy o’dd wedi bod gyda pwy, a pwy o’dd beth wedwn i.

**Achos o’dd lot o garu.**

O’dd lot o hwnna’n mynd ‘mla’n. O’dd, o’dd.

**Ni ‘di siarad yn barod, o’ch chi’n gweud o’ch chi’n gwitho pump diwrnod a o’ch chi’n gwitho bore dydd Sadwrn.**

Dim bob dydd Sadwrn. O’dd e’n dependo fel o’dd y gwaith.

**O’dd y dydd Sadwrn ‘na ar gael i chi os o’ch chi’n moyn e, ne o’ch chi’n twmlo bod rhaid i chi neud e?**

Na, os o’n i’n moyn e. O’n nhw’n dod rownd i ofyn pwy o’dd yn moyn. Wel, o’n i’n mynd, os o’dd e’n gyfleus wrth gwrs, ife.

**Pryd o’dd yr adege mwya bishi yn y ffatri te? O’dd ‘na gyfnod o’r flwyddyn yn fwy bishi na cyfnod arall?**

Fi’n credu o’dd e’n dependo ar yr ordors, chi’n gwbod. Os o’n nhw’n ca’l ordors achos o’dd lot o’r gwaith yn mynd mas i America. Os o’dd ordor fowr yn dod am rhwbeth, am watsh ne rhwbeth o’dd hi’n all out ‘na.

**O’dd y watsys yn mynd dros y byd i gyd?**

O’n. O’n nhw’n well known am y Smiths chi’n gwbod.



**A shwd o'ch chi'n twmlo am witho 'na, chi'n gwbod bod pobl yn gwbod bo' chi'n gwitho 'na. O'ch chi'n teimlo'n itha prow'd?**

O, o'n. O'n.

**Shwd o'ch chi'n twmlo, wedech chi?**

Chi'n gwbod. Fi'n credu taw 'na'r unig le o'dd 'da ni i fynd a o'n nhw wastod yn siarad amdano fe. Nawr, fi yn reminiso nawr, chi'n gwbod am yr amser.

**Pam y'ch chi'n meddwl nôl am yr amser 'na te, ydych chi'n meddwl licech chi wedi neud rhywbeth arall, neu chi'n hapus taw 'na beth y'ch chi wedi neud?**

Wel, fan 'na fi'n credu etho i a sefes i, nes bod fi wedi gorfod cwpla te. Yn amal o'n i'n gweud se rhywbeth wedi mynd yn rownd, nagw i'n mynd nôl i'r gwaith 'na dydd Llun, fi'n cwpla. Ond erbyn dydd Llun wedyn 'nny o'n i wedi mynd nôl.

**Beth o'dd yn hala chi'n ffed yp te? O'dd rhwbeth yn hala chi?**

Chi'n gwbod os o'ch chi'n dechre cwmpo mas 'da rhywun a os o'dd y foreman yn dod chi acha jobyn bach trwm, hen jobyn bach brwnt.

**Pam bydde fe'n neud 'na te?**

Wel, ambell waith o'dd ambell un yn sbeito chi, chi'n gwbod. O'dd ambell i ddynd itha siarp, cas 'na. Os o'dd e'n gwbod o'ch chi'n sensitif that was it. Bydde fe'n whare bear a chi.

**O'dd dim yr un foreman 'da chi drw'r amser?**

Na, na. O'dd gwahanieth.

**Am faint o amser bydde chi'n cadw, gwedwch chi bod rhywun yn bach yn siarp fel o'ch chi'n gweud nawr, am faint bydde chi'n gwitho dano fe?**

Falle bydde chi'n mynd ato fe am cwpwl o ddyddie falle, yn dependo os nag o'dd gwaith 'da chi le o'ch chi'n arfedd gwitho o'ch chi'n gorfod mynd i rwle arall i witho. Wedyn 'nny bydde fe wedi rhoi'r jobyn mwya, gwaetha, brwnt a bydde 'da fe i chi, chi'n gwbod, i ga'l danto chi. Fel 'na o'dd ambell un.

**Ond bydde amser yn dod bydde fe'n mynd i witho mewn man arall bydde fe, a bydde rhywun arall 'da chi.**

Bydde, bydde. Falle bydden i wedi mynd nôl wedyn 'nny i le o'n i'n arfer gwitho. O'dd. O'dd e'n fwy gwd 'na beth o'dd e'n wael te.

**O'ch chi'n gweud bod cantîn yn y ffatri, o'dd rhai pobol yn ca'l cino 'na wedyn?**

O, o'dd. O'n nhw'n cwcan yn y cantîn ife.

**O'ch chi ddim yn ca'l (bwyd)?**

Na, fi'n credu taw sangwejes geso i fi'n credu. Fi'n coffio co fi'n cwpla, 'na'n fwyd i bob dydd o'dd afal a caws a iogwrt. Nawr te. 'Na healthy eating nawr ife?

**Mae'n itha iach.**

O'dd, heb y caws. Am flynydde. A wedyn o'ch chi'n gwitho 'da menywod wedyn 'nny a o'n nhw'n mynd â'r crisp bread wedyn 'nny. O'dd lot o fenywod yn slimo 'na. A ni gyd yn lico slimo, chi'n gwbod. Ac o'dd y dynon yn whare bêr. O'n i'n mynd lawr i'r Stores wedyn 'nny ar ddydd Gwener, ne ar ddydd Llun, rhyw ddiwrnod a o'n ni'n pwysu ar y weighing

scales o'dd 'da nhw. O'n ni'n tynnu stwff nhw off a o'n i'n mynd ar y scêls i bwysu. A wedyn 'nny o'n i'n ca'l 'yn dala wedyn a o'n i'n ca'l row wedyn 'nny. Hen bethach bach fel 'na chi'n gwbod.

### **Pwy o'dd yn byta'n y cantîn te?**

Dynon o'dd fwya.

### **O'n nhw'n ca'l pryd o fwyd?**

O'n nhw'n ca'l pryd o fwyd. O'n. O'dd menywod ond o'dd rhan fwya'n dod â'u bwyd 'da nhw.

### **O'n nhw'n lot fwy trefnus siwr o fod.**

Yr amser 'na fi'n credu, o'dd arian yn bring o'dd e.

### **Shwd beth o'dd y bwyd, chi'n gwbod?**

O'dd wastod chips 'na, wy'n cofio 'na. Wastod chips.

### **Pryd o fwyd twym?**

Ie. Nagw i'n credu, o'dd dim bwyd ffansi 'na, chi'n gwbod. Ond wy'n cofio o'dd rhai yn byta 'na. Ac o'n ni gyd yn rhedeg i'r cantîn achos o'dd pob un moyn bod gynta. A le o'n i o'dd e'n bishin o wac i fynd. O'n i'n gorfod dod lawr y steps, a mynd drw'r llefydd hyn ife. So bydde'n section ni wastod yn diwetha, ond rhai o'dd ar bwys y cantîn, nhw o'dd yn ca'l y bwyd gore.

### **O'dd digon o le i ishte 'na te?**

O, o'dd. Ond llosgws hi lawr. A'th rhwbeth yn rong ar un o'r cwears ne rhwbeth a llosgws hi lawr. Fi'n cofio 'na.

50.00

### **O'n i ddim yn gwbod 'na. I ga'l mynd nôl at y gwylie nawr, o'ch chi'n ca'l hyn a hyn o wylie'r flwyddyn o'ch chi. Sawl diwrnod o'ch chi'n ca'l?**

Wy'n credu o'n i'n ca'l pythownos yn yr haf. Nagw i'n cofio.

### **O'dd pawb yn ca'l yr un amser?**

O'dd. O'dd hi'n shut down, o'n nhw'n galw fe. Pythownes yn yr haf.

### **Ac o'dd hwnna yn yr haf?**

O'dd. O'n i bownd o fod yn ca'l rhywfaint off i Pasg. Nagw i'n cofio am Sulgwyn.

### **Chi'n cofio am wylie banc o gwbl?**

Nagw i'n cofio hwnna. Ond amser Nadolig wedyn 'nnyo'dd sbri ofnadw. O'n i'n ca'l y trimins lan i Nadolig. A dynon o'dd yn cleimo wedyn 'nny i ddodi'r trimins lan a o'dd rhai'n decoreto'u benches. Ond da'th yr Health and Safety wedyn 'nny dofe, a dodon nhw stop arno fe. Ac o'dd y Christmas trees lan. O'dd rheina'n bert ofnadw.

### **O'ch chi'n ca'l parti?**

O'dd. O'dd parti i blant 'na. Achos o'n i'n talu mewn. Fi'n cofio'r plant 'da fi'n ca'l mynd. Parti Nadolig yn y cantîn. O'n nhw i gyd yn ca'l Sion Corn ife a presants.

**O’dd Sion Corn yn dod o’dd e?**

O’dd Sion Corn ‘na bob tro. Ac o’dd Sion Corn yn dod lan i le o’n i’n gwitho ‘fyd...

**Pam o’ch chi’n ca’l y pythownos ‘na yn yr haf, o’ch chi’n mynd bant rhwle ne’ o’ch chi’n dueddol o aros?**

Na, o’n i fan hyn, achos o’dd y plant yn fach ‘da fi ife. Ond o’dd dim lot o storis bod rhai yn mynd ‘abroad’ wedwn ni. Nagw i’n cofio lot o reini.

**O’dd e ddim wedi dod yn ffasiwn pry’nny?**

Na, nagw i’n credu o’dd e.

**Gwedwch chi bod ishe diwrnod off arno chi i fynd rhwle, gwedwch chi, er enghraifft bod angladd neu rwbeth, o’dd e’n ddigon rhwydd i ga’l e.**

O’dd, o’dd. Fi’n credu, ond o’dd ishe os o’n i’n mynd i’r hospital, o’dd ishe proof. O’dd rhai’n ca’l cards wrth rai erill chi’n gwbod, a llanw nhw lan os o’n nhw moyn prynhawn bach off. O’dd lot o bethach bach fel ‘na yn ca’l ‘neud.

**O’n nhw dal yn ca’l ‘u talu wedyn?**

O’n, o’n. O’dd un merch ‘da fi. Sa i’n gwbod faint o sgans gas hi amser o’dd hi’n mynd i ga’l babi. Gas hi fwy o sgans ‘na neb. Ond o’dd hi’n ca’l prynhawn bach off.

**‘Bytu pwy bellter wedech chi o’dd hi o le o’ch chi’n byw i’r ffatri?**

‘Bytu milltir.

**Dim ond milltir.**

Bytu milltir o’dd e.

**‘Na shwd o’ch chi’n gallu cerdded wedyn?**

Ie, ie. O’n i’n cerdded ar ddydd Sadwrn wedyn achos o’dd ddim bys. Nago’dd y double decker yn dod.

**Pwy amser o’ch chi’n gadel y tu te?**

Wel o’n i’n dechre am hanner awr wedi saith, gwedwch o’n i’n dechre ymbytu saith. Dechre cerdded ‘bytu saith, walle.

**O’dd y cwmni yn trefnu unrhyw ddigwyddiadau neu weithgareddau cymdeithasol erill? O’ch chi’n gweud bod parti Nadolig, ond i’r plant o’dd hwnna.**

I’r plant o’dd hwnna.

**O’n nhw’n trefnu rhywbeth i chi, fel y gweithwyr?**

Na, nagw i’n cofio ‘na.

**O’dd dim dawns ne dim byd fel ‘na?**

O’dd rhwbeth ‘na. O’n nhw’n ca’l Miss Tick Tock bob blwyddyn. O’dd merched pert yn treial, ma’ rhaid i fi weud. Wedyn ‘nny, o’dd magazine yn dod mas ‘da nhw, ac o’dd y llunie y merched, o’dd c’nithder i fi wedi bod, Gwennie, druan â hi, ma’ hi wedi mynd. O’dd hi’n Miss Tick Tock am flwyddyn.

**Beth o’dd merched yn neud te, gweud bod nhw eisiau treial?**

Wel, o'ch chi'n ca'l ych fforso i dreial, fi'n credu. A wedyn 'nny o'dd fel, un o'dd Miss Tick Tock. Ond o'dd merched erill 'da ni fel bridesmaids wedwn ni. Ac o'n nhw'n ca'l y sash. O'dd ffys i gyd. O'dd hwnna'n ca'l 'i neud lan yn y clwb, Tic Toc o'n nhw'n galw hwnna.

**O'dd hwnna'n digwydd mewn nosweth mas?**

O'dd hwnna'n annual thing 'da nhw chi'n gwbod.

**Pwy o'dd yn dewish te?**

O'dd y judges yn dod o rwle. Le o'n nhw'n dod o, a'r managers.

**Os taw rhywun o'r ffatri o'dd yn dewish alle fe trwbwl.**

A o'dd y manager yn ca'l dewish. O'dd e'n dod. Ond o'dd merched pert. Wrth gwrs o'dd y gwallt yn ca'l ei neud ar brynhawn dydd Gwener, yn barod. Fi'n cofio'r rowlars, chi'n gwbod dyfe.

**O'ch chi'n nabod y manager?**

Mr Bolt. O'n. O'dd e'n dod rownd ambell waith. O'n ni gwbod bod e'n dod. O'n ni gyd yn ca'l 'yn warno.

**O'ch chi'n ca'l rhybudd cyn 'nny?**

Bydde'r bench yn ca'l 'i chlanhau i gyd. Popeth yn dod off o'r bench ac o'dd hi'n ca'l i' chlanhau i gyd. A'r windowsills, popeth yn ca'l 'u clanhau erbyn bod i'n dod i neud inspection.

**A beth o'dd e'n neud te, pan o'dd e'n dod rownd?**

Jest dishgwl rownd, siarad ambell un, chi'n gwbod ife.

**Buoch chi'n siarad â fe?**

O na, bues i ddim. Na. O'n i'n ofon tamed bach, nagw i'n gwbod, achos o'dd e'n shwd ddynd bach serious, fi'n credu.

**Beth o'dd e'n gwishgo? O'dd e ddim yn gorfod yr overalls!**

Siwt o'dd 'da fi. O'dd dim sôn amdano fe yn ei overalls. O'dd e yn ei siwt a shirt a tei wedwn ni.

**O'dd e'n byw yn lleol te, ne o'dd e'n byw bant?**

Na, o'dd e'n dod lawr o Birmingham o'dd e. Ond nagon ni'n gweld e'n amal ond fe o'dd y Chief wedwn ni.

**Beth o'ch chi'n galw'r Clwb, fel Recreation Club?**

Ie.

**O'ch chi ddim yn mynd fan 'na te?**

Na, na. O'n ni'n rhy ifanc.

**Pwy o'dd yn mynd fan 'na te?**

Rhai'n henach 'na fi o'dd yn mynd myn'nny. Ar nos Wener o'n nhw'n mynd fan'na fwya, although o'dd e ar agor drw'r dydd, bob nos fi'n credu. O'dd criced gyda nhw, a bowls 'da nhw, chi'n gwbod. O'dd lot o gymdeithasu 'da nhw chi'n gwbod.

**O’dd adloniant ‘da nhw? O’n nhw’n ca’l bands ne unrhywbeth fel ‘na?**

O’dd, o’dd. Bues i ddim i reina o gwblwl.

**O’dd y dynon yn gallu ca’l peint amser cino te, ne o’dd hwnna yn erbyn y rheole, achos o’dd lot mwy o hwnna blynydde nôl.**

Fi’n cofio, mewn blynydde wedyn ‘nny o’n i’n mynd lawr i’r Old Swan o’n nhw’n galw fe. O’n ni’n gallu rhedeg lawr a rhedeg nôl mewn hanner awr, a hanner lagyr fi’n credu o’n i’n ca’l pry’nny. Hanner awr o’n ni’n ca’l ond os o’dd rhai o’ ni’n hwyr o’dd rhai’n watshan. O’n nhw’n cloco ni mewn.

**Pwy o’dd yn watsho hwnna te?**

O’dd y foremen yn watsho.

**O’n nhw’n gweud rhwbeth?**

Wel, o’n i yn ca’l clywed ambell i waith.

**O’dd y targets ‘ma ‘da chi, ond bo’ch chi’n cyrra’dd y target.**

Ond bod ni’n cyrra’dd y target o’n i’n reit. Wedyn ‘nny ar brynhawn dydd Gwener, o’n i’n arfer gwitho wedyn ‘nny hyd dydd Llun, os o’n ni wedi gwitho lot drw’r wthnos o’n i’n gallu gwitho ‘mla’n chi’n gwbod.

**So o’dd rhywfaint o, dim flexi, ond ‘na bach o ..**

O’dd ond o’n nhw’n strict ar ambell i beth, a’r peth arall wedyn ‘nny o’n nhw’n olreit.

**Os ‘na un peth yn aros yn y cof am ych amser chi ‘na. Rhyw ddigwyddiad falle neu ... (CUCKOO CLOCK CHIRPS) arhoswn ni i’r gwew nawr.**

**O’dd ‘na unrhywbeth, unrhyw ddigwyddiad, neu unrhyw achlysur, pam chi’n meddwl am ych amser chi’n Tic Toc, a ma’ hwnna’n aros yn y cof, chi’n gwbod?**

Wel, fi’n meddwl am yr amser hapus o’n i ‘na. O’dd dim lot o hen ffraeo. O’dd pob un yn gwitho ‘da’i gilydd, chi’n gwbod. O’dd pob un yn hapus. O’dd dim sôn am neb yn riporto neb ‘na dim. Nagw i’n cofio, anyway.

**So chi’n gallu cofio’r flwyddyn dechreuoch chi?**

‘Bytu 1967, rhywbeth fel ‘na fi’n credu dechreues i. 1965 dechreues i.

**A wedyn cwplloch chi wedyn ‘nny ..**

‘Bytu 1970, rhywbeth fel ‘na. .. A bues i off am bytu pump mlynedd, a etho i nôl wedyn ‘nny am gwpwl o flynydde. O’dd y gwaith yn cwpla wedyn ‘nny. O’dd gwaith arall yn dod mewn.

**O’dd pobol yn ca’l redundancies wedyn?**

O’dd, redundancy wedyn.

**Ife, na beth gethoch chi?**

Ie.

**A shwd o’ch chi’n teimlo pry’nny? O’ch chi’n teimlo’n drist?**

Wel, o’n achos o chi’n mynd i witho mewn lle arall, a o’dd ffactori dan y car industry wedi dechre lan yn Cae’r Bont ar bwys Abercraf a etho i lan fan ‘na i witho. Yn gwitho ar y cloce

eto i ddodi mewn panels ceir. Gwahanieth ceir. Minis a Fords, a chi'n gwbod o'dd peth o foreign cars yn ca'l 'u neud.

**A shwd byddech chi'n cymharu'r ddau le?**

Gwaith mwy trwm. O'dd y cloc 'u hunan yn drwm i handlo. O'dd y machines yn drwm. O'dd popeth yn drwm.

**Ife gyda menywod o'ch chi'n gwitho fan 'na?**

O'dd dynon eto, fel yn fosys arno ni, ond menywod o'dd yn neud y gwaith. O'dd ambell i ddyn ond ffactori menywod o'dd hi.

**O'ch chi ddim yn ych ardal chi, ych hunan mewn ffordd wedyn 'nny. O'ch chi'n nabod rhai o'r bobol?**

O'n achos o'n nhw'n employo rhai newid 'fyd ife. O'dd dim lot o ni'r hen ferched 'na wedyn 'nny ife. O'n nhw'n employo rhai erill. Wrth gwrs, o'dd rheina mwy ffit, mwy ryff wedyn 'nny, ond chi'n dod i nabod nhw.

**O'ch chi'n hiraethu am ble o'ch chi wedi gwitho?**

O'n ni wastod yn gweud o'dd dim lle yr un peth â Tic Toc.

**Ydych chi dal mewn cysylltiad gyda rhai o'r merched.**

Ydw, ambell un. Fi still yn cadw ar y ffôn chi'n gwbod ife a gofyn shwd ma' hi a shwd ma' fe, chi'n gwbod, ydy.

**Pam cwploch chi yn Tic Toc o'ch chi'n barod i symud mla'n o'ch chi'n teimlo? O'dd redundancies yn dod – o'ch chi'n teimlo bod yr amser wedi dod i chi fynd i neud rhywbeth gwahanol.**

O'dd rhaid i fi fynd. O'dd rhaid i fi gael arian ife yn gwitho. Do, joies i lan yn Cae'r Bont, ma' rhaid i fi weud, ond geso i neud yn redundant.

**Am faint buoch chi fan 'na te?**

Bues i fan'nny blynydde. Neso i 28 o flynydde i gyd. O'n i fod i ga'l watsh amser o'n i'n gwitho 25 years ond geso i ddim o'r watsh. O'n nhw wedi cwpla fe.

**Yn ble o'dd hyn nawr?**

Rhynt y dair ffactori. Os o'ch chi'n neud cyment â 'na o flynydde o'ch chi'n ca'l watsh a o'ch chi'n ca'l nosweth mas gyda'r management. O'n nhw wedi cwpla fe. So geso i ddim watsh.

**Gethoch chi ddim watsh yn Tic Toc te?**

Naddo. Ar ôl i fi neud e'r holl flynydde.

**Ar ôl neud yr holl watsys 'na ife?**

Nagoch chi'n ca'l dim. Dim perc's o gwbl.

**Ac o'ch chi'n gwitho i bob ceiniog.**

O'dd rhaid i ni witho o'dd e, chi'n gwbod. Chi'n gwbod o'n i'n mynd, falle nagon i'n hwylus ond o'n i'n mynd, cymryd cwpwl o dablets falle a o'n i'n mynd. Ond o'dd nyrs 'na.

**O'dd nyrs yn y gwaith?**

O'dd.

**O'ch chi'n gallu mynd ati hi os nag o'dd hwyl arno chi.**

O'ch, o'ch. A o'dd gwely 'da hi. A o'ch chi'n gallu mynd i orwedd. A fi'n cofio fi'n ca'l y chicken pox, dala chicken pox ar ôl y plant, a etho i nôl i'r gwaith wedyn 'nny ar y dydd Llun a geso i warning bo' fi wedi colli gwaith. Anghofio i byth o' fe. Chi'n gwbod o'n i ffaelu mynd i'r gwaith a chicken pox arno i.

**Wedoch chi 'na wrthon nhw?**

Do. O'n i wedi mynd lawr i'r nyrs a wedws y nyrs, 'I've got to send you home,' medde hi. 'You've got chicken pox' medde hi. A ca'l warning bo' fi wedi colli gwaith.

**O'n nhw'n eitha' strict nagon nhw.**

O'n. O'dd dim mesan ymbythdu 'na. Fi yn cofio hwnna.

*English summary*

**Tick Tock Factory (Anglo Celtic: Smiths Industries) Ystradgynlais & Cae'r Bont Car  
Factory)  
(Started work circa 1965)**

Interviewee: VSW001 Moira Morris

Date: 6.11.13

Interviewer: Susan Roberts on behalf of Women's Archive of Wales

Moira was born in Cwmtwrch, on 27th July, 1949. Her father worked as a haulier in the Gwaith Pwll Bach coal mine, and Moira thinks that he looked after the horses. Her mother looked after Moira and her older brother and did the housework. She went to school in Cwmtwrch and then on to Maes y Dderwen Comprehensive School in Ystradgynlais. She left when she was fifteen years old and went to work in the 'Tick Tock' factory which was officially called the Anglo Celtic. The factory made women's watches, men's watches and pocket watches. On the other side of the site was the Enfield where they made chime clocks, and other different types of clocks. The factory wasn't far from Moira's house. She finished school on the Friday and started there on the Monday. There were many people working there and most of them spoke Welsh. Some members of Moira's family were already working there which helped with the recruitment process.

**'It was the type of factory, that if you had family working there you were guaranteed a job'.**

Moira's cousin encouraged her to go for a job there. During the interview they gave her a few tools to see how competent she was with a screwdriver and tweezers. She had to put a small part into a watch. She got the job.

She was given several different jobs at the beginning to test how good her eyes were and how well she coped. She was then given three months training before moving on to a better job. The other women helped her and showed her what to do. She worked on a line and had to learn every job on that line in case somebody was absent from work.

The women were nice. There was lots of singing and that's how Moira learnt many songs which she would not otherwise have known. Moira became an expert on putting the balance in the watches. She had been taught how to use the eyeglass. Moira describes how the tools were used – the eyeglass, the tweezers and the screwdriver. She thinks the intricacy of the work led to many eye and hand problems for many women.

They were brought trays of watch parts and were expected to finish them all by the end of the day. They had targets and were paid on the basis of these targets. They had pink master cards to denote how much work they'd done. They had to do ten master cards a day and at the end of the week the booking clerks took them and worked out how much they had earned. She worked from Monday to Friday, and occasionally Saturday mornings and earned five pounds a weeks when she first started there.

She liked working a Saturday morning but the women who had children couldn't work this shift. Moira's mother would get half of her pay and Moira would keep the rest.

Moira finished at the factory when she had children and when she returned five years later was put on the men's pocket watches which was easier than working on the wristwatches as they were bigger. She could go back to full time work as her husband worked on the night shift.

She was made redundant circa 1985 but got work next door on the Enfield site. They started making clocks for cars and she worked on the Mini lines. It was dirty, heavy work. It was different working there but Moira felt she had to do it.

When Moira started in Tick Tock there were many girls who came there straight from school and others in their twenties. The older women looked after the younger ones.

Moira was given white overalls when she began there. She was quite small and the overalls were so long they nearly reached the floor. Her mother put a hem on them for her. They were wraparound overalls and she took a few days to learn how to put them on properly.

The factory was very strict on cleanliness as it was supposed to be a dust free environment. The workers weren't allowed to eat anything as they worked and if they were caught doing so would be given a firm ticking off.

Moira took sandwiches to work for lunch. She had to change her shoes when she got to the factory. They provided rubber shoes but the women didn't like them. Moira would take a pair of sandals. They marked them with red paint to ensure that you didn't wear them outside.

Men would come and clean the floor with a mop. The charge hands were men. They brought the girls their work, and took the completed work away. If Moira couldn't do something a charge hand would show her what to do.



It was men who worked on the inspection as well, and men who repaired the watches. All the work was checked before going out and if something had a fault in it would be returned to be sorted out by the men.

**‘They had done their apprenticeship so they knew how to fix the watches.’**

The apprentices were young boys who had joined the factory from school. Girls weren’t taken on as apprentices. Moira remembers the Tool Room where the men, apprentices made the tools.

There was also a machine shop. That was a dirty place to work but women worked there on the machines. They wore green overalls and gloves. Neither Moira nor her friends wanted to work there.

**‘Sometimes they threatened to send us down to work there, but none of us wanted to. So we behaved ourselves.’**

There were about a thousand people working in the “Anglo” when Moira was there. It wasn’t a noisy place to work. Moira was shy when she started but wasn’t shy for long and would join in the fun. Many couples got together at the factory and got married.

All the girls who got married would dread what would happen at the factory. **“After lunch on the Thursday the person getting married would be dragged into the toilets, and would be dressed up. And of course, we didn’t wear trousers in those days. Everybody wore skirts and tights. Well, then the confetti came out. It went down the tights and down the clothes. And then they made a head dress with a veil.”**

**They made the veil out of old net curtains, and there would be things hanging from it. All the girls dreaded this day. They would then get a bucket and mop and the bride to be had to walk back and forth with the other girls singing ‘Here Comes the Bride’ and ‘I’m Getting Married in the Morning’.**

This happened to Moira. She had no choice in the matter and was taken to the toilets with them pulling her arms. No work would then be done on the Thursday afternoon. They would all have been busy all week, and would have their fun on that afternoon. The bosses let them carry on as there was nothing they could do to stop it. Something similar would happen to the men getting married. They would be made to wear a top hat.

The women would carry on working after getting married until they had a baby.

There were a few people who didn’t speak Welsh from places like Abercrave, or Pontardawe. Some workers came from Brynaman although most from this village tended to go to work in Ammanford.

Moira travelled to work by bus. There were five double decker buses going to the factory from her area, and picked workers up on the way. There was no bus on a Saturday so Moira would have to walk to work on that day. She started work at half past seven and finished at four o’clock. She would have a morning and afternoon break as well as a lunch break. She took sandwiches for her lunch.

No qualifications were required to work at the factory but getting a job wasn't automatic and you had to prove that you could do the work. It helped Moira that she had a relative working there.

They had to clock in and out. Moira admits that cheating did take place. If somebody had slept late, someone else might clock in on their behalf especially if the girls had been out on a Friday night and were working on the Saturday morning.

**“The other thing I remember is Friday afternoons, the girls would be going out on Friday night. And the rollers. It was like a hairdressers in the little room by the toilet. Everybody was having their hair done. The foremen ... They couldn't stop it.”**

Moira thinks that her employers were fair, although they made sure that everybody worked for their money by setting targets.

The factory was like a school. **“It was the best education.”**

The downside of working there was if she had to work with somebody she didn't get along with. Some women put a pile of work ready for her just to be spiteful.

There were many men working in the area where Moira was on the pocket watches. Further training would involve one of the women coming to sit with her until she had mastered a new task. The wages depended on what was being produced on the line. Workers weren't placed in a job where they could earn a bonus until they were qualified.

Moira was on the Assembly. The windows didn't open here in order to keep dust out, and in the summer the men would go outside and hose the glass in order to cool it down.

There was one large space upstairs, and another downstairs. There was a shop there selling discounted products such as watches to employees. Moira bought herself a watch from here.

The factory made several types of watches and they bore the Smiths badge. They also made a large type of watch which would be wall mounted.

All the parts were made in the machine room and would then be taken to the women on trolleys, and the women would put them together.

It was hard returning to work after having children.

Workers would receive their pay packet from the pay office. Moira would have to queue up on a Friday afternoon for it. She wouldn't open it in work but would take it home. Her mother would open it and give her half of what she had earned. Younger workers earned less but workers over twenty one years old got ten pounds a week.

There was a union at the factory. If somebody had a problem they would go to the convener. It was mandatory to be a member of the union and the subs would be taken directly out of their pay.

Moira took her overall home to wash it herself.

Moira's work wasn't dangerous but workers in the machine shop quite often got cuts, and there were accidents there.

They were allowed to go to the toilet when they wanted, but not too often or they would have a row. There was a woman whose sole responsibility was cleaning the toilets.

They didn't play music for the workers while they worked but it was a quiet place and their heads would be bent over their work.

Moira remembers a temperamental lift that would get stuck. If somebody went missing they would check the lift to see if they were stuck in there.

There might be a problem with the balance of a watch before Moira had received it in which case it would be sent back to the section and checked.

Many women smoked in the room near the toilets. At break time a trolley would come with hot and cold drinks to purchase, but no food as this was not permitted.

Moira suffers from rheumatism today but doesn't know whether it was caused by the work she did at Tick Tock. It may also have affected her eyes. The young girls worked with the small parts, and the older women on the bigger work.

The apprentices worked in their own section. Apprenticeships were three or five years long in duration.

The older women would play a trick on the younger ones. They would paint the rim of their eyepiece black which meant that whoever used it would then unwittingly be walking round with a black circle around their eye.

When Moira went back to work at the factory she worked the same hours. A swing shift was later introduced there which began at half past four and finished at nine. When Moira's husband went on strike during the Miners' Strike 1984-5, she worked the swing shift as well as her normal hours in order to earn extra money. This was a difficult year for Moira.

Before Moira returned to work she had got word from relatives working there that they had vacancies. Two of her cousins were foremen there 'looking after the girls'.

There was also a social club where workers went to socialise. It organised trips for the workers at Tick Tock but Moira didn't go because she was too young.

They liked to gossip in the factory on a Monday morning, about who had been out with who over the weekend.

Moira worked a Saturday when the over-time was offered and if she wanted the extra hours. They would come round and asked who wanted the extra shift. If a big order came into the factory it was all hands on deck. The watches would be exported all over the world and the Smiths' watches were well known.

Moira was happy working in Tick Tock but would sometimes tell herself that she wouldn't be returning to work on the Monday, although she always did. She would get fed up occasionally if she had quarrelled with somebody or if the foreman had put her on a dirty job. One or two of the men could be a bit spiteful.

**'If he knew that you were sensitive, that was it. He would play bear with you'**

They would work under different foremen.

Moira talks about the food she ate at lunch times and women going on a diet. They would go down to Stores on a Friday or on a Monday to weigh themselves on the scales there. They would have a row when they were caught. It was mainly the men who ate in the canteen, and the women tended to bring their own food. The canteen was too far away for Moira and the people working with her anyway. It burnt down due to a fault with one of the cookers.

The factory shut down for a fortnight during the summer. Moira can't remember how much time off they had during other periods in the year.

Christmas time at the factory was lots of fun. The men would put up trimmings and the women would decorate their benches. Health and Safety put a stop to all this. Christmas trees would also be put up. There would be a children's Christmas party. Workers would pay in for this. Moira's children would go and they would receive a present from Santa.

During the summer holidays Moira and the family would stay at home. Not many people went abroad in those days.

Moira remembers that if you wanted to ask for time off to go to hospital you needed to provide proof. The workers could borrow appointment cards from their colleagues for this. One of the girls who worked with Moira had countless "scans" when she was expecting a baby in order to get an afternoon off.

Moira lived about a mile away from the factory and would leave the house at seven o'clock

There was an annual Miss Tick Tock competition, and many pretty girls entered. The factory had a magazine published featuring pictures of the girls. Moira's cousin, Gwennie, was Miss Tick Tock one year. The girls were forced to enter. A Miss Tick Tock would be selected and she would have other girls as her bridesmaids. The competition would be held up in the club. Moira doesn't know where the judges were from, but some of them were managers.

Mr Bolt, the manager of the factory would come around sometime. They knew when he would be coming and would clean the bench in readiness. Everything would be cleaned, including the windowsills. He would look around and speak to a few of the workers. He was a very serious man and Moira was a bit frightened of him. He would come down from Birmingham.

The older workers went to the club. They usually went on a Friday. It would be open all day and in the evenings. They had a cricket team, and a bowls team. They had bands performing there too.

Moira remembers running down to the Old Swan pub during her lunch break.

**‘I could run down and back in half an hour, and I think I used to have a half a lager. We only had half an hour but if some of us were late back others were watching out and would clock us back in.’**

**‘I think about the happy times I had there. There wasn’t much quarrelling. Everybody worked together. Everybody was happy. There wasn’t talk of anybody reporting anybody else. I can’t remember this happening anyway.’**

Moira says she thinks she started there in 1967 (or 1965) and worked there until 1970. She returned circa 1975.

After she was made redundant she went to work in a car factory in Cae’r Bont near Abercrave. She worked on the clocks that were fitted into the car panels. They were made for Minis and Fords and some foreign cars. The work was heavier. The clock itself was heavy to handle, and the machines were heavy. The bosses were men but it was women who did the work.

**‘There were a few men but it was a women’s factory.’**

The women were pushier and rougher than the ones she had worked with in Tick Tock. She enjoyed in Cae’r Bont but was made redundant from here as well.

Moira worked twenty eight years in total. She was supposed to have a watch after working twenty five years but she never got one as the factory had finished by then.

There was a nurse in Tick Tock to look after workers if they didn’t feel well. Moira remembers having chicken pox which she had caught from the children. She went back to work on the Monday and was given a warning because she had lost work. She couldn’t believe it.